



## **Polisi Diogelwch Gyrwyr**

## Cynnwys

|   |    |
|---|----|
| 1. Datganiad Polisi .....   | 2  |
| 2. Cwmpas .....   | 2  |
| 3. Gwybodaeth a Chanllawiau Cysylltiedig y Brifysgol .....  | 3  |
| 4. Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer.....   | 3  |
| 5. Diffiniadau.....   | 4  |
| 6. Cyfrifoldebau.....   | 4  |
| 6.1. Yr Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol .....  | 4  |
| 6.2 Rheolwyr Llinell (gan gynnwys Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau, Penaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol) ..... | 5  |
| 6.3 Yr Adran Teithio a Fflyd.....   | 5  |
| 6.4 Gyrwyr Galwedigaethol.....  | 6  |
| 7. Monitro .....  | 7  |
| 8. Adnoddau a Gwybodaeth Bellach.....   | 7  |
| 9. Canllawiau Ychwanegol.....   | 8  |
| 9.1 Asesiadau Risg.....   | 8  |
| 9.2 Defnyddio eich Cerbyd eich hun .....  | 8  |
| 9.3 Ffonau Symudol a Dyfeisiau Cyfathrebu .....   | 9  |
| 9.4 Nwyddau Peryglus .....  | 9  |
| 9.5 Alcohol, Cyffuriau a Meddyginiaeth.....   | 9  |
| 9.6 Gyrwyr Cerbydau Arbenigol yn y Gwaith .....   | 10 |
| 9.7 Gyrwyr Bws Mini.....  | 10 |

## 1. Datganiad Polisi

O ran risgiau sy'n ymwneud â gyrru mewn cysylltiad â gwaith, bydd y Brifysgol yn rheoli'r rheiny sy'n dod o dan ei rheolaeth gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn lliniaru'r risgiau i yrwyr galwedigaethol ac i eraill a allai gael eu heffeithio gan weithgarwch gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith.

Bydd y Brifysgol yn cyflawni'r polisi hwn trwy:

- Asesu risgiau mawr sy'n gysylltiedig â gweithgarwch gyrru yn ymwneud â gwaith a gweithredu mesurau rheoli i leihau'r risgiau hyn i lefel resymol
- Dim ond gadael i'r bobl hynny sydd â'r gallu angenrheidiol i yrru cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol neu ar brydles iddi
- Rhoi cyngor ac arweiniad i yrwyr galwedigaethol er mwyn iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau cyfreithiol a osodir arnynt gan ddeddfwriaeth berthnasol
- Sicrhau bod pobl sy'n gyrru eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Brifysgol yn gwneud hynny'n gyfreithiol trwy roi cyngor a chyfarwyddyd perthnasol iddynt a thrwy gynnal archwiliadau rheolaidd (e.e. ar drwyddedau gyrru, yswiriant a dogfennau eraill)
- Rheoli cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol neu ar brydles iddi i sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithio effeithlon ac effeithiol yn unol ag unrhyw ofynion statudol. Pan fydd cerbydau'n methu â chyrraedd y safon hon, ni chânt eu defnyddio hyd nes y bydd unrhyw ddiffygion wedi'u trwsio neu gywiro.
- Gwahardd gyrrwyr galwedigaethol rhag defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau cyfathrebu yn eu dwylo pan fyddant yn gyrru mewn cysylltiad â gwaith ar dir y Brifysgol a ffordd cyhoeddus.
- Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n ymarferol

Mae'r Brifysgol yn ystyried bod diogelwch yn flaenoriaeth ac mae wedi llunio'r polisi hwn i nodi'r hyn y gall aelodau o staff ac eraill ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn yr ydym ninnau yn ei ddisgwyl ganddynt hwythau mewn cysylltiad â siwrneiau sy'n gysylltiedig â gwaith.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i yrru unrhyw fath o gerbyd ac mae'n berthnasol i bob aelod o staff sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflogeion y mae gofyn iddynt yrru cerbydau fel rhan annatod o'u gwaith (e.e. staff meysydd Gwasanaethau Proffesiynol); neu
- Cyflogeion sy'n gyrru cerbydau'r Brifysgol, neu eu cerbydau eu hunain neu gerbydau wedi'u llogi fel rhan o'u gwaith neu wrth gyflawni rhyw agwedd ar fusnes y Brifysgol (e.e. staff sy'n mynychu cyfarfodydd neu gynadleddau neu ddigwyddiadau, neu'n teithio i gyrchfannau oddi ar y safle ar gyfer ymchwil neu waith maes neu unrhyw weithgareddau eraill y Brifysgol). Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgarwch gyrru yn ymwneud â gwaith a allai ddigwydd dramor.

Nid yw teithiau cymudo rhwng cyfeiriad cartref/man preswyllo'r cyflogai a'u man gwaith arferol yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chario llwythi penodol, sylweddau peryglus, gwaith codi neu weithgarwch tebyg yn dod o dan arweiniad, safonau a pholisïau iechyd a diogelwch gwahanol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr os gofynnir iddynt yrru ar fusnes y Brifysgol neu sy'n gyrru fel rhan o weithgaredd a reolir neu a drefnir gan y Brifysgol. Mae gweithgarwch gyrru gan fyfyrwyr ar gyfer neu ar ran Undeb y Myfyrwyr (er enghraifft, gyrru bysiau mini fel rhan o weithgaredd clwb neu gymdeithas) yn dod o dan reolaeth Undeb y Myfyrwyr ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y polisi hwn.

Bydd gwirfoddolwyr neu unigolion eraill y gellid gofyn iddynt yrru ar fusnes y Brifysgol (er enghraifft i gefnogi gweithgaredd) yn cael eu hystyried fel rheol yn gyflogeion dros gyfnod y gweithgaredd neu'r digwyddiad.

### 3. Gwybodaeth a Chanllawiau Cysylltiedig y Brifysgol

Isod ceir rhestr o'r canllawiau a llawlyfrau gwahanol ar gyfer grwpiau cerbydau penodol ac ystyriaethau diogelwch eraill. Mae'n holl bwysig eich bod yn darllen ac yn cadw at y canllawiau canlynol os bydd eich rôl yn gofyn i chi wneud hynny:

**Llawlyfr Bws Mini** – mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sy'n gyrru bws mini ac yn cludo teithwyr ar ran y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr.

**Cerbydau Arbenigol** – mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i yrwyr galwedigaethol faniau, cerbydau cynnal a chadw tiroedd, a cherbydau amaethyddol.

**Polisi Teithio Staff** – mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n mynd neu sy'n bwriadu mynd ar siwrneiau hir iawn neu sydd angen teithio dramor.

**Polisi** gweithio ar eich pen eich hun – mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw yrrwr galwedigaethol a fydd yn teithio neu'n gweithio ar ei ben ei hun.

**Trelars a Thynnu Cerbyd** – mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw yrrwr galwedigaethol sy'n gyrru cerbyd sydd ag unrhyw fath o drelar ynghlwm.

Polisi Tywydd Garw – mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl yrwyr galwedigaethol a staff

### 4. Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer

Y ddeddfwriaeth yn ymwneud â gyrru a cherbydau sy'n atgyfnerthu'r polisi hwn yw deddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1991; Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986; Rheoliadau Cerbydau Modur (Trwydded Yrru) 1999, fel y'u diwygiwyd a Deddf Diogelwch Ffyrdd 2006.

Dylid cofio hefyd bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan gynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ynghyd â Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER) 1998, yn berthnasol i bob siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith ac i gerbydau sy'n gweithredu yn y gweithle a'r cyffiniau.

Gall yr holl ddeddfau uchod gael eu diwygio a byddant yr un mor gymwys.

Ceir arweiniad yn [Cod Rheolau'r Ffordd Fawr](#), a ystyrir yn God Ymarfer perthnasol ar gyfer pob gyrrwr galwedigaethol.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol wneud hynny gan ddilyn Rheolau'r Ffordd Fawr. Dylid cofio bod y rhannau hynny yn Rheolau'r Ffordd Fawr sy'n nodi 'Rhaid' neu 'Peidiwch' yn gyfraith gwlad. Rhaid cofio nad yw anwybodaeth am y gyfraith byth yn esgus ac mae gyrwyr galwedigaethol yn bersonol gyfrifol am unrhyw dor-cyfraith traffig.

Cyfrifoldeb y Brifysgol yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni ar gyfer y cerbyd/cerbydau sydd i'w gyrru, gan gynnwys cerbydau wedi'u cyflenwi gan y Brifysgol yn ogystal â cherbydau preifat a ddefnyddir ar fusnes y Brifysgol.

## 5. Diffiniadau

### Siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith

Ystyrir siwrnai i fod yn un sy'n gysylltiedig â gwaith os yw hi'n siwrnai a wnewch ar ran y Brifysgol, waeth pa mor aml y gwneir hi na pha mor bell neu p'un a yw wedi'i gwneud yn eich cerbyd eich hun, os caniateir hynny, neu mewn cerbyd a ddarperir gan y Brifysgol.

Ni chaiff eich siwrnai cymudo o'ch cartref i'ch man/mannau gweithio arferol, ac yn ôl adref wedyn, ei hystyried i fod yn siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith. Yr eithriad i'r rheol hon yw os ydych chi'n newid cyfeiriad eich siwrnai o'ch man/mannau gweithio arferol i fynychu cyfarfod neu dasg ar ôl gadael cartref, nid ystyrir hyn i fod yn siwrnai cymudo arferol i chi, ac felly ystyrir y siwrnai gyfan i fod yn un sy'n gysylltiedig â gwaith. Yn yr un modd, os byddwch yn gadael eich gweithle arferol ac yn mynychu cyfarfod neu dasg ar eich ffordd adref, ystyrir y siwrnai gyfan i fod yn un sy'n gysylltiedig â gwaith.

### Gyrrwr Galwedigaethol

Unrhyw gyflogai neu fyfyrwr sy'n gyrru mewn cysylltiad â gwaith ar gyfer, neu ar ran, y Brifysgol yng ngherbyd y Brifysgol.

### Cerbyd y Brifysgol

Unrhyw gerbyd sy'n eiddo i'r Brifysgol, wedi'i brydlesu iddi, ei logi ganddi neu ei weithredu ganddi.

### Cerbyd Preifat

Unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan gyflogai neu fyfyrwr ar gyfer busnes y Brifysgol nad yw'n eiddo i'r Brifysgol, na'i brydlesu na'i logi ganddi.

### Bws Mini

Cerbyd sy'n gallu cario rhwng 9 ac 16 o deithwyr (yn gynhwysol) ar yr un pryd yn ogystal â'r gyrrwr galwedigaethol.

## 6. Cyfrifoldebau

Mae'r adrannau canlynol yn egluro'r cyfrifoldebau parthed gweithredu unrhyw gerbyd neu offer cysylltiedig yn ddiogel, yn gyfreithiol ac i gydymffurfio â'r polisi hwn.

### 6.1. Yr Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol

Yr Is-Ganghellor, fel Prif Swyddog Gweithredol y Brifysgol, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol i Gyngor y Brifysgol am hyrwyddo, gweinyddu a gweithredu Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ac unrhyw Safonau Polisi cysylltiedig. Cefnogir yr Is-Ganghellor yn y cyfrifoldeb hwn o ddydd i ddydd gan Weithrediaeth y Brifysgol, yn unol â strwythur rheoli'r Brifysgol. Mae'r Is-Ganghellor ac aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sydd â chyfrifoldebau rheoli neu oruchwylio i sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth ddigonol i fodloni eu hunain bod sylw dyledus yn

cael ei roi i ofynion y Polisi Iechyd a Diogelwch yn y meysydd neu'r gweithgareddau dan eu rheolaeth neu gyfeiriad.

## 6.2 Rheolwyr Llinell (gan gynnwys Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau, Penaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol)

Mae Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am weithredu trefniadau addas yn eu Cyfadrannau neu Adrannau eu hunain er mwyn rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, gan gynnwys:

Gweithredu systemau er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod gan yrwyr galwedigaethol y trwyddedau, yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol i yrru cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol neu sydd ar brydles iddi. Pan fydd gyrrwr galwedigaethol yn datgelu bod ei drwydded wedi'i dirymu, ei hatal neu ei thynnu'n ôl am unrhyw reswm neu os yw'n datgelu nad yw'n feddygol ffit i yrru, yna mae'n rhaid rhyddhau'r gyrrwr hwnnw o'i ddyletswyddau gyrru yn ymwneud â gwaith hyd nes y ceir cyngor pellach gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Adran Teithio a Fflyd.
- O ran cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol neu ar brydles iddi sy'n cael eu rheoli gan adrannau unigol, rhaid sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr addas i'r ffordd ac yn cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol. Pan ganfyddir cerbydau nad ydynt yn bodloni'r gofynion statudol o ran addasrwydd i'r ffordd fawr, neu os amheuir hynny, yna ni ddylid defnyddio'r rhain hyd nes y gellir trwsio neu gywiro unrhyw ddiffygion.
- Rhaid cyflawni asesiadau risg ar gyfer pob siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith (wedi'u halinio â math y cerbyd, gan gynnwys unrhyw offer arbenigol sydd ynghlwm wrth y cerbyd neu wedi'i gludo ganddo) a bod mesurau rheoli yn cael eu nodi a'u gweithredu. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo defnyddio mathau eraill o drafndiaeth, darparu unrhyw hyfforddiant, goruchwyliaeth ac offer angenrheidiol i yrwyr galwedigaethol, gan gynnwys offer amddiffynnol personol, er mwyn lleihau risgiau sylweddol i lefel resymol.
- Dylid monitro a diweddarau asesiadau risg gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith, gan wneud hynny yn ôl yr angen ac yn flynyddol ar y lleiaf.
- Sicrhau bod Adran Teithio a Fflyd y Brifysgol yn cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw fwriad i brynu neu logi cerbydau newydd.
- Dylid monitro amserlenni gwaith i sicrhau nad oes amharu ar arferion gyrru diogel, er enghraifft trwy weithio gormod o oriau a allai arwain at flinder.
- Rhaid cyfathrebu a hyrwyddo'r polisi hwn i bob aelod o staff sy'n mynd ar siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith ar ran y Brifysgol, waeth pwy sy'n berchen ar y cerbyd.

Yn ogystal, dylid ystyried hyrwyddo'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus ar gyfer gweithgarwch gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith pan fo hynny'n ymarferol bosibl.

## 6.3 Yr Adran Teithio a Fflyd

Bydd yr Adran Teithio a Fflyd yn cynnal systemau, prosesau a chronfeydd data (gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol /GDPR) i hyrwyddo gyrru diogel ledled y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Cadw'r rhestr o yrwyr galwedigaethol cymeradwy'r Brifysgol, ynghyd â'r gwiriadau dogfennau angenrheidiol, er enghraifft ar drwydded yrru ac yswiriant lle bo'n briodol
- Asesu anghenion a phrofiad gyrru unigolion er mwyn cynnig hyfforddiant yn unol â'r math o gerbyd sy'n cael ei yrru at ddibenion gwaith a rolau swydd.
- Casglu data ar wrthdrawiadau, troseddau gyrru a digwyddiadau sydd bron ag achosi damwain, er mwyn sicrhau gwelliant ac adolygu parhaus ar y polisi hwn.
- Rheoli a gweinyddu hawliadau yswiriant ar gyfer cerbydau'r Brifysgol ac unrhyw gerbyd sydd wedi'i gymeradwyo i'w logi ar gyfer busnes y Brifysgol.

## 6.4 Gyrrwyr Galwedigaethol

Pryd bynnag y byddwch yn gyrru ar fusnes y Brifysgol neu'n gyrru cerbyd sy'n eiddo i'r Brifysgol, mae'n rhaid i chi gofnodi manylion y siwrnai yn y llyfr log cerbyd a ddarparwyd. Ni ddylech wneud hynny dan amodau yr ydych chi neu'r Brifysgol yn eu hystyried yn anghyfreithlon neu'n anniogel. Rhaid:

### Cyffredinol

- Darllen, deall a chadw at y polisi hwn
- Bod yn gyfarwydd ag unrhyw gyngor, gofyniad neu ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Diogelwch Gyrrwyr Galwedigaethol fel y bo'n berthnasol i'ch grŵp cerbydau, a gweithredu'n unol â'r cyngor, gofyniad neu ganllawiau hyn.
- Cydymffurfio â systemau ac asesiadau risg Adrannol neu Gyfadran sy'n ymwneud â gweithgarwch gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith.

### Gyrrwr

- Bod yn gyfrifol ac yn atebol am eich gweithredoedd eich hun wrth yrru
- Sicrhau eich bod yn feddygol ffit i yrru a'ch bod yn bodloni'r safonau o ran golwg (gallu gweld yn iawn) fel sy'n ofynnol i yrru (neu fod gennych yr offer cywirol priodol ac yn eu defnyddio). Rhaid i chi roi gwybod i'ch Rheolwr Llinell os oes unrhyw newidiadau i'ch iechyd a allai effeithio ar eich gyrru ac yn benodol os ydych yn dioddef o unrhyw gyflyrau meddygol hysbysadwy y DVLA, neu os ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaeth ragnodedig a allai effeithio ar eich gallu i yrru offer neu beiriannau yn ddiogel
- Bod â'r drwydded, hyfforddiant neu gymhwyster arall priodol ar gyfer y cerbyd y bydd gofyn i chi ei yrru. Rhaid i chi dynnu sylw eich rheolwr llinell ar unwaith at unrhyw wybodaeth am anghymwyso neu euogfarnau am droseddau gyrru neu unrhyw atal neu ddiddymu ar eich trwydded, er enghraifft unrhyw droseddau traffig a gadarnhawyd neu os rhoddwyd cyfyngiadau ar eich trwydded yrru
- Sicrhau eich bod yn gyfarwydd â gyrru unrhyw gerbyd yr ydych ar fin ei ddefnyddio a'ch bod yn hyderus i wneud hynny. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell cyn gwneud unrhyw siwrnai neu barhau â'r siwrnai honno. Rhaid i chi fod yn gyfarwydd ag unrhyw gyfarwyddiadau / canllawiau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r cerbyd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â gyrru cerbydau tiroedd neu gerbydau amaethyddol ac/neu offer cysylltiedig

## Y cerbyd

- Sicrhau bod pob cerbyd yn ddiogel i'w weithredu cyn ei ddefnyddio a, lle bo'n briodol, dylid cyfeirio at lawlyfr gweithredu'r cerbyd neu ganllawiau llwythi diogel ac unrhyw restrau o bethau i'w gwirio cyn y siwrnai
- Rhoi gwybod i'r Tîm Teithio a Fflyd am unrhyw ddiffygion mewn cerbydau o eiddo'r Brifysgol ac unrhyw gerbydau ar brydles iddi. Dim ond os yw'r cerbyd yn ddiogel ac yn gyfreithlon i'w ddefnyddio y gellir gwneud siwrnai ynddo
- Bod â thystysgrif ddilys gan y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (Ministry of Transport /Mhot), lle bo'n berthnasol, a'r yswiriant "at ddefnydd busnes" angenrheidiol os ydych yn defnyddio cerbyd preifat neu sydd ar brydles ar gyfer busnes y Brifysgol

## Y Siwrnai

- Ystyried defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbyd sy'n eiddo i'r Brifysgol neu ar brydles iddi yn hytrach na defnyddio'ch cerbyd eich hun wrth deithio ar fusnes y Brifysgol.
- Cynllunio'ch siwrnai i roi digon o amser i gyrraedd eich cyrchfan yn ddiogel ac yn gyfreithlon, gan adael digon o amser i gael hoe a gorffwys ar deithiau hirach. Dylech ystyried yr amodau tywydd a ffactorau eraill a all effeithio ar amser teithio.
- Cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol a osodir arnoch gan ddeddfwriaeth diogelwch ar y ffyrdd neu ddeddfwriaeth arall gan gynnwys gwisgo gwregys diogelwch, peidio â defnyddio ffonau symudol yn eich llaw a pheidio ag ysmegu yng ngerbydau'r Brifysgol nac ar unrhyw siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Rhoi gwybod i'ch Rheolwr Llinell am unrhyw wrthdrawiadau neu ddamweiniau a fu bron â digwydd wrth yrru ar gyfer gwaith neu os yw'n berthnasol yr Heddlu neu Swyddog Yswiriant y Brifysgol, drwy ddilyn gweithdrefn cofnodi digwyddiadau'r Brifysgol yn <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/>

## 7. Monitro

Mae'r polisi hwn i'w adolygu'n rheolaidd, a phob dwy flynedd ar y lleiaf.

Bydd y Brifysgol yn monitro gweithredu'r polisi hwn a'i effeithiolrwydd, a'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd i fonitro'n rhagweithiol drwy'r drefn archwilio a chynnal awdit. Bydd monitro ail-weithredol hefyd yn cael ei gwblhau trwy ymchwilio i ddigwyddiadau a hawliadau yswiriant.

Caiff unrhyw dorri ar y polisi gyrru'n ddiogel ei drin yn unol â pholisi a gweithdrefn ddisgyblu'r Brifysgol.

## 8. Adnoddau a Gwybodaeth Bellach

<https://www.aber.ac.uk/cy/hse/>

<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg382.pdf>



<https://www.rospa.com/road-safety/resources/free/employers/>

<https://www.rospa.com/rospaweb/docs/advice-services/road-safety/employers/safer-driving-for-work-handbook.pdf>

<https://www.gov.uk/using-mobile-phones-when-driving-the-law>

## 9. Canllawiau Ychwanegol

### 9.1 Asesiadau Risg

Dylai asesiadau risg ar gyfer unrhyw weithgarwch gyrru sy'n gysylltiedig â gwaith ddilyn yr un egwyddorion â'r rhai ar gyfer unrhyw weithgarwch gwaith arall fel yr amlinellir [yng nghanllawiau Asesu Risg y Brifysgol](#)

Ar gyfer siwrneiau neu weithgarwch gyrru sydd â risgiau ychwanegol iddynt, dylid cwblhau a chofnodi asesiad manylach. Dyma enghreifftiau o ble y gallai hyn fod yn briodol:

- siwrnai neu deithiau pellter hir nad ydynt yn rhai arferol sy'n cynnwys gyrru dramor
- gyrru y disgwylir iddo ddigwydd mewn tywydd garw
- teithiau sy'n golygu gweithio ar eich pen eich hun mewn ardaloedd anghysbell neu a allai fod yn beryglus
- teithiau sy'n cynnwys gyrru mathau o gerbydau nad ydynt yn cael eu gyrru fel arfer neu siwrnai y gall y gyrrwr galwedigaethol fod yn ddibrofiad neu â hanes gwael o ddamweiniau
- cludo anifeiliaid neu nwyddau peryglus
- cludo nifer fawr o deithwyr er enghraifft mewn bws mini

### 9.2 Defnyddio eich Cerbyd eich hun

Mae'r gyfraith yn nodi mai cyfrifoldeb y gyrrwr galwedigaethol yw sicrhau bod unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru ar y briffordd gyhoeddus yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio. Yn achos cyflogeion sy'n defnyddio eu cerbyd preifat eu hunain ar gyfer busnes gwaith, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod gan y cerbyd dystysgrif MOT ddilys (os yw'n berthnasol), bod y cerbyd wedi'i yswirio i'w ddefnyddio ar gyfer busnes eich cyflogwr a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn briodol i fod mewn cyflwr sy'n gyfreithiol addas i fod ar y ffordd.

### 9.3 Ffonau Symudol a Dyfeisiau Cyfathrebu

Fe'ch cynghorir i sicrhau bod gennych fodd o alw am gymorth wrth fynd ar siwrnai sy'n gysylltiedig â gwaith, gallai hyn fod yn ffôn symudol neu'n radio. Rhaid dilyn y canlynol bob amser:

- Rhaid i chi ond wneud neu dderbyn galwadau fel y caniateir gan y gyfraith. Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i chi barcio'n ddiogel gyda'r injan wedi'i diffodd NEU bod angen i chi ffonio 999 neu 112 mewn argyfwng a'i bod yn anniogel neu'n anymarferol i chi stopio.
- Rhaid i chi beidio ag anfon negeseuon testun neu fynd mewn i unrhyw ap ar ffôn symudol wrth yrru neu wrth reoli cerbyd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio unrhyw dechnoleg sgrin gyffwrdd mewn cerbyd sy'n cysylltu'r ffôn â'ch cerbyd. Rydych chi'n dal i fod â rheolaeth dros gerbyd hyd yn oed pan na fyddwch yn symud oni bai bod yr injan wedi'i diffodd a bod y brêc llaw wedi'i godi.
- Dylech bob amser stopio mewn lle diogel a chyfleus i wneud neu dderbyn galwad ffôn/radio. Sicrhewch nad ydych yn peri anghyfleustra i unrhyw ddefnyddwyr eraill ar y ffordd wrth i chi ddewis lleoliad i stopio.
- Fe'ch cynghorir i beidio â chymryd rhan mewn unrhyw sgwrs ar ffôn symudol yn ddi-law wrth yrru oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol a bod yn rhaid i chi barhau i reoli'ch cerbyd drwy'r adeg. Mae gan yr heddlu y pŵer i'ch stopio os ydynt yn credu bod eich sylw wedi'i dynnu oherwydd defnyddio ffôn symudol wrth yrru, hyd yn oed os yw ar system gwbl di-law.

Fe'ch atgoffir mai'r gosb am ddefnyddio ffôn neu ddyfais llywio lloeren (*sat nav*) wrth yrru neu reoli cerbyd yw dirwy o £200 a 6 phwynt wedi'u hychwanegu at eich trwydded. Byddwch yn colli'ch trwydded os ydych wedi pasio'ch prawf o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Y gyrrwr fydd yn gyfrifol am dalu'r ddirwy hon, yn ogystal ag unrhyw gamau adfer eraill sydd ar gael i'r Brifysgol o dan ei [gweithdrefnau disgyblu](#).

### 9.4 Nwyddau Peryglus

Dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw gan eich rheolwr llinell y caniateir cludo nwyddau peryglus yn ôl dosbarthiad [Rheoliadau](#) UNECE ar Gludiant Nwyddau Peryglus yng ngherbydau'r Brifysgol. Mae angen i [asesiad](#) risg ffurfiol fod yn sail i bob gweithgaredd o'r fath.

### 9.5 Alcohol, Cyffuriau a Meddyginiaeth

**Rhaid i chi beidio** â gyrru dan unrhyw amgylchiadau o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau, neu'r hyn a elwir yn 'gyffuriau penfeddwol' (*legal highs*). Mae polisi Cyffuriau ac Alcohol y Brifysgol i'w gael [yma](#).

Byddai unrhyw euogfarn yn ymwneud â hyn yn cael ei ystyried yn Gamymddwyn Difrifol a gallai arwain at ddiswyddo. Bydd euogfarn am fetu â darparu sbesimen diod/cyffur i'r Heddlu yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol yn berthnasol i'r holl staff.

Pwysig – Nid yw'r Gyfraith yn gwahaniaethu rhwng cyffuriau anghyfreithlon neu gyffuriau rhagnodedig / dros y cownter.

## 9.6 Gyrwyr Cerbydau Arbenigol yn y Gwaith

Mae gan y Brifysgol fflyd amrywiol o gerbydau, yn enwedig cerbydau sy'n cael eu gyrru gan y Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd, IBERS a'r Ffermydd.

Os yw eich rôl yn ei gwneud yn ofynnol i chi yrru unrhyw gerbyd arbenigol, neu weithredu unrhyw offer cysylltiedig, sef cerbydau heblaw car arferol neu fan fach, rhaid i chi ofyn am gyngor gan eich Rheolwr Llinell a dilyn unrhyw brosesau hyfforddi neu ymgyfarwyddo sydd ar waith.

## 9.7 Gyrwyr Bws Mini

Mae angen cymhwysedd ar lefel uwch i yrru bws mini, oherwydd:

- Mae'r cerbyd yn fwy o faint/trymach (y pellter stopio yn hirach);
- Caiff mwy o deithwyr eu cario gan arwain at fwy o straen ar y gyrrwr galwedigaethol e.e. cyfrifoldeb ychwanegol, mwy o sŵn a thynnu ar ei sylw;
- Mae bysiau mini yn tueddu i gael eu defnyddio ar gyfer mynd yn bell, a hynny'n anaml.

Y gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â chymwysterau yw y gall gyrwyr galwedigaethol a gafodd eu trwydded yrru lawn cyn 1 Ionawr 1997 yrru bws mini yn y Deyrnas Unedig. O ran gyrwyr a gafodd eu trwydded ar 1 Ionawr 1997 neu ar ôl hynny, mae ganddynt drwydded i yrru cerbyd sydd â hyd at 8 sedd yn unig. Er mwyn gyrru bws mini, mae angen i yrwyr galwedigaethol gael hawl categori D1 PCV ar eu trwydded. Mae manylion llawn pellach i'w gweld yn y Llawlyfr Bws Mini.